



Llesiant Cymru: 2021

Adroddiad am y cynnydd y mae Cymru yn ei
wneud tuag at wella llesiant cenedlaethau yn awr
ac yn y dyfodol

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Lesiant Cymru: 2021**. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru o ran cyflawni'r saith nod llesiant'.

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd eu deall. Gallwch chi edrych beth y mae'r holl eiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 30**.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**.. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Website: [Llesiant Cymru | LLYW.CYMRU](http://LlesiantCymru.LLYW.CYMRU)

E-mail: desg.ystadegau@llyw.cymru

Phone: 0300 025 5050



Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall** Cymru gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, [cliciwch yma](#).

Cyflwyniad.....	4
Newidiadau i'r ffordd rydyn ni'n mesur llesiant.....	9
1. Cymru lewyrchus.....	11
2. Cymru gydnerth.....	14
3. Cymru iachach.....	17
4. Cymru sy'n fwy cyfartal.....	20
5. Cymru o gymunedau cydlynol.....	24
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.....	26
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.....	27
Mwy o wybodaeth am yr adroddiad hwn.....	29
Geiriau anodd.....	30

Cyflwyniad

Dyma'r pumed tro rydyn ni wedi gwneud un o'r adroddiadau hyn ynghylch **Llesiant** Cymru. Pan ddwedwn ni **llesiant**, rydyn ni'n meddwl:



- **Llesiant economaidd** sy'n ymwneud â phethau fel cael swydd, rhedeg busnes a chael incwm.



- **Llesiant cymdeithasol** sy'n ymwneud â phethau fel ein cymuned a'n gwerthoedd.



- **Llesiant amgylcheddol** sy'n ymwneud â'n natur, ein tir, ein dŵr a'n haer.



- **Llesiant diwylliannol** sy'n cynnwys pethau sy'n dod â ni at ein gilydd fel hanes, barddoniaeth a digwyddiadau fel yr **Eisteddfod**.



- Ac mae hefyd yn ymwneud â'ch **llesiant**.

Mae hyn yn meddwl bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus â'i fywyd a'r hyn mae'n ei wneud.



Rydyn ni'n paratoi'r adroddiad hwn i weld a yw Cymru yn cyflawni **saith nod llesiant Cymru**.



Mae'r nodau hyn wedi'u rhestru yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**.



Mae ar y ddeddf hon eisiau gwneud Cymru yn lle gwell i chi fyw ynddo ac ar gyfer pobl yn y dyfodol.



Mae gan y ddeddf **saith nod fydd** yn helpu Cymru ddod yn genedl mwy **cynaliadwy**.

Mae bod yn **gynaliadwy** yn meddwl defnyddio'r pethau sydd eu hangen arnon ni i fyw ein bywydau ond gwneud yn siŵr bod digon ar ôl ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Mae'r rhain yn cael eu galw'n nodau **llesiant** oherwydd maen nhw'n disgrifio pethau da rydyn ni am eu gweld yn digwydd.



Rydyn ni'n siarad am **saith prif nod** sy'n ymwneud â **llesiant**. Enwau'r nodau yw:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru gydnerth
3. Cymru iachach
4. Cymru sy'n fwy cyfartal
5. Cymru llawn cymunedau cydlynol
6. Cymru â diwylliant bywiog a Chymraeg sy'n ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang



Byddwn yn siarad mwy am y nodau hyn a beth maen nhw'n feddwl yn y ddogfen.



Mae COVID-19 wedi effeithio ar rai o'r nodau y flwyddyn hon. Er hynny nid ydyn ni'n gwybod am bopeth eto.



Hefyd, mae rhai pobl wedi cael eu heffeithio gan COVID-19 yn fwy na phobl eraill.



Mae COVID-19 yn ei gwneud hi'n fwy anodd deall ym mha ffordd y mae Cymru wedi symud ymlaen.



Mae rhai pobl wedi bod mewn mwy o berygl o fynd yn sâl gyda COVID-19. Er enghraifft, pobl hŷn.



Hefyd, mae pobl o swyddi arbennig wedi cael eu heffeithio'n fwy gan COVID-19. Er enghraifft, pobl mewn swyddi sy'n talu llai.



Ac mae newidiadau i'r amgylchedd yn argyfwng arall rydyn ni'n ei wynebu.



Mae Cymru'n defnyddio ei adnoddau'n rhy gyflym.



Er hynny, mae Cymru'n un o'r gwledydd gorau yn y byd am **ailgylchu**.

Ailgylchu yw pan fyddwn yn troi ein sbwriel yn rhywbeth y gallwn ei ddefnyddio eto.

Newidiadau i'r ffordd rydyn ni'n mesur llesiant



I weld a yw Cymru'n symud ymlaen o ran **llesiant** rydyn ni'n casglu gwybodaeth a'i dyddio a gwneud adroddiad amdani fel rhywbeth sy'n mesur llesiant trwy'r genedl.



Mae'r nodau hyn yn cael eu torri i lawr yn **46 o nodau llai**. Rydyn ni'n galw'r rhain yn **fesuryddion cenedlaethol**. Mae arnon ni eisiau ychwanegu dau fesurydd bychan arall ac rydyn ni'n gofyn am fylchau eraill.

Y bylchau hyn yw:




- Ffyrdd o deithio



- **Cynhwysiant digidol**

Mae **cynhwysiant digidol** yn meddwl gwneud yn siŵr bod pobl yn medru cael mynediad i'r rhyngrwyd a chyfrifiaduron a'u defnyddio yn hawdd.



Mae arnon ni hefyd eisiau ychwanegu **9 carreg filltir** i'r nodau. Mae'r rhain yn rhoi mwy o wybodaeth ynghylch faint o newid sydd ei angen ar gyfer pob nod. Maen nhw'n helpu i roi gwell syniad i ni ynghylch pa mor dda rydyn ni'n gwneud.



Rydyn ni wedi bod yn gofyn i bobl beth maen nhw'n feddwl am y newidiadau hyn.



Mae gweddill y ddogfen yn sôn am yr hyn sydd wedi'i gyflawni ar gyfer pob un o'r **nodau llesiant** yn y flwyddyn a aeth heibio.

1. Cymru sy'n ffynnu



Mae'r nod llesiant hwn ynghylch gwneud yn siŵr bod Cymru'n gwneud yn dda fel gwlad trwy:

- Gael syniadau da
- Gwneud pethau
- Meddwl am y newid yn yr hinsawdd
- Cefnogi pobl i gael addysg dda i'w helpu i gael swydd dda.

Y pethau y daethon ni i wybod:




- Mae COVID-19 wedi cael effaith fawr ar yr **economi**.

Mae'r **economi** yn meddwl hynny o arian sydd gan wlad. Mae hyn yn rhannol i'w wneud â'r pethau rydyn ni'n eu gwneud a'u gwerthu. A faint o arian rydyn ni'n ei wario.



- Rydyn ni wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn cael ei alw'n **Brexit** hefyd. Mae hyn wedi effeithio ar y ffordd rydyn ni'n prynu a gwerthu pethau yn y gwledydd yn Ewrop.



- Nid yw **economi** y Deyrnas Unedig wedi bod yn dda ers 2008. Ac rydyn ni wedi cynhyrchu llai o nwyddau.



- Ond nid yw Cymru'n gwneud mor dda â rhai rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.



- Mae Cymru'n dlotach na rhai rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.



- Ac mae Cymru'n cynhyrchu llai o eitemau na rhai rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Mae hyn yn effeithio ar yr **economi**.



- Mae mwy o bobl o Gymru mewn swyddi sy'n talu llai na rhai rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.



- Mae gwahaniaethau mewn cyflogaeth rhwng Cymru a rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn llai nag yr oedden nhw'n arfer bod.



- Mae'n debyg bod y pandemig wedi effeithio ar **economi** Cymru mewn ffyrdd tebyg i rannau eraill o'r DU.



- Mae llai o wahaniaethau rhwng yr hyn mae dynion a menywod yn ei ennill. Mae hyn yn cael ei alw'n fwlch cyflog rhwng y rhywiau.



- Mae mwy o bobl yn cael cymwysterau.



- Mae merched yn gwneud yn well na bechgyn mewn addysg.

2. Cymru gydnerth



Mae'r nod hwn yn ymwneud â gofalu am yr amgylchedd a'i wella. Ond hefyd ynghylch y ffordd rydyn ni'n helpu'r amgylchedd i ymdopi â newidiadau fel newid hinsawdd. A hefyd newid pan fydd arnon ni angen gwneud hynny mewn perthynas â'r newid i'r amgylchedd.

Y pethau y daethon ni i wybod:



- Mae Cymru'n defnyddio ei **chyfoeth naturiol** yn gyflym iawn.

Mae **chyfoeth naturiol** yn bethau fel coedwigoedd, tir, pridd, aer, planhigion a bywyd gwyllt.



- Mae llawer o waith i'w wneud i amddiffyn pobl rhag peryglon yn yr amgylchedd. Er enghraifft, llifogydd.



- Does dim llawer o newid wedi bod i **lygredd yr aer** ers yr adroddiad diwethaf.

Mae **lygredd yr aer** yn llygredd sy'n cael ei achosi gan geir, trafnidiaeth arall, llosgi tanwydd i wresogi ein cartrefi a phethau eraill.



- Mae **lygredd yr aer** yn beryglus i iechyd pobl.




- Mae hynny o wastraff rydyn ni'n ei **ailgylchu** wedi cynyddu.



- Mae gan Gymru un o'r cyfraddau **ailgylchu** gorau yn y byd. Ond rydym yn dal i ddefnyddio mwy o **adnoddau naturiol** nag y gallwn eu disodli.



- Rydyn ni'n defnyddio mwy o ynni adnewyddadwy yn ein cartrefi. Mae hyn yn meddwl ynni sy'n dod o bethau fel ffermydd gwynt neu ynni'r haul.



- Mae gennym ni lai o fywyd gwyllt nag o'r blaen.



- Mae gwell ansawdd ar y dŵr nag o'r blaen. Mae hwn yn yr afonydd, y nentydd ac yn y ddaear.



- Mae mwy o gartrefi mewn perygl o ddioddef gan lifogydd.

3. Cymru iachach



Mae'r nod hwn yn ymwneud â'n hiechyd corfforol a meddyliol a gwneud yn siŵr mai nhw yw'r gorau y gallan nhw fod.

Ac mae'n ymwneud â'n dealltwriaeth ni o'r ffordd y mae'r dewisiadau rydyn ni'n eu gwneud yn effeithio ar ein hiechyd yn y dyfodol.

Y pethau y daethon ni i wybod:



- Mae menywod yn tueddu i fyw'n hirach na dynion.



- Ond mae dynion yn tueddu i gael gwell iechyd na menywod.



- COVID-19 oedd prif achos marwolaeth yn y flwyddyn a aeth heibio.



- Mae mwy o ferched na bechgyn yn cael problemau sy'n ymwneud â defnyddio cyfryngau cymdeithasol.



- Mae mwy o ferched na bechgyn yn cael problemau â bwlio ar-lein.



- Roedd un o bob chwech o fenywod yn ysmygu pan oedden nhw'n disgwyl babi.



- Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd tlotach o Gymru yn tueddu i beidio â byw mor hir.



- Mae mwy o fabanod yn cael eu geni yn isel eu pwysau.



- Mae tua 14 o bob 100 o bobl yn ysmygu.



- Mae tua 17 o bob 100 o bobl yn yfed mwy o alcohol nag sy'n lles i'w hiechyd.



- Mae tua 30 o bob 100 o bobl yn bwyta digon o ffrwythau a llysiau.



- Mae tua hanner o'r holl oedolion yn cael digon o ymarfer.



- Mae llawer o bobl yn poeni am eu hiechyd meddwl.



- Ac mae llawer o bobl yn dweud bod eu hiechyd meddwl wedi mynd yn waeth ers y pandemig.



- Mae cyflwr tai wedi gwella yn y deng mlynedd diwethaf.

4. Cymru mwy cyfartal



Mae'r nod hwn yn ymwneud â rhoi cyfle i bawb gyrraedd eu potensial. Does dim gwahaniaeth pwy ydyn nhw na beth yw eu cefndir.

Y pethau y daethon ni i wybod:



- Mae COVID-19 wedi cael mwy o effaith ar rai grwpiau o bobl na grwpiau eraill. Er enghraifft, dynion, pobl hŷn a phobl o **grwpiau lleiafrifoedd ethnig**.

Mae **grwpiau lleiafrifoedd ethnig** yn bobl sy'n dod o wahanol gefndir neu wlad i'r mwyafrif o bobl eraill o fewn y gymdeithas.



- Mae llawer o fenywod, pobl ifainc a phobl o **grwpiau lleiafrifoedd ethnig** wedi colli eu swyddi oherwydd COVID-19. Cawson nhw eu heffeithio'n fwy na grwpiau eraill yn y gymdeithas.



- Nid oedd gan un o bob pedwar o bobl ddigon o arian.



- Roedd pobl oedd yn marw gan COVID-19 yn llawer uwch mewn ardaloedd tlotach o Gymru.



- Mae tua 40 o bob 100 o fenywod yng Nghymru yn gweithio fel gweithwyr hanfodol. Mae hyn yn meddwl eu bod nhw'n gwneud gwaith sy'n wirioneddol bwysig ar gyfer cymdeithas yn gyffredinol.



- Mae tua 5 o bob 100 o bobl yng Nghymru yn eu disgrifio eu hunain fel Du, Asiaidd neu **leiafrif ethnig**.



- Roedd pobl Ddu, Asiaidd a **lleiafrifoedd ethnig** yn fwy tebygol o fod mewn swyddi oedd yn gorfod cau pan ddechreuodd COVID-19.



- Mae mwy o bobl o grwpiau Du, Asiaidd a **lleiafrifoedd ethnig** yn debygol o fod yn dlawd.



- Roedd plant o rai grwpiau o **lleiafrifoedd ethnig** yn tueddu i wneud yn well yn yr ysgol.



- Mae bron i hanner yr holl bobl yng Nghymru yn dweud eu bod nhw'n Gristnogion.



- Mae bron i hanner yn dweud nad oes ganddyn nhw grefydd.



- Mae ychydig dan ddau o bob 100 o bobl yn dweud eu bod nhw'n Foslemaidd.



- Mae ychydig dan dri o bob 100 o bobl yn dweud eu bod nhw'n **hoiw, lesbiaidd neu ddeurywiol**.

Mae **hoiw, lesbiaidd neu ddeurywiol** yn meddwl pwy rydych chi'n ei ffansio neu'n cael eich denu ato. Er enghraifft, mae dynion hoiw'n ffansio dynion eraill. Mae menywod hoiw'n ffansio menywod eraill. Mae pobl ddeurywiol yn ffansio dynion a menywod.



- Mae pobl sy'n anabl yn fwy tebygol o gael llai o arian na phobl sydd ddim yn anabl.



- Mae pobl sy'n anabl yn fwy tebygol o ennill llai o arian na phobl sydd ddim yn anabl.



- Mae plant ag anghenion addysgol arbennig wedi bod yn gwella yn yr ysgol.



- Mae bron i un o bob pedwar o bobl yng Nghymru yn cael eu dosbarthu fel pobl dlawd.

5. Cymru o gymunedau cydlynol



Mae'r nod hwn yn ymwneud â chael cymunedau deniadol a diogel. Ac sydd â chysylltiadau da â'i gilydd.

Y pethau y daethon ni i wybod:



- Mae tua saith o bob deg o bobl yn dweud eu bod nhw'n teimlo'n rhan o'u cymuned. Ac yn cyddynnu'n dda â phobl yn eu cymuned.



- Mae mwy o bobl yn teimlo eu bod nhw'n gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal.



- Mae un o bob pedwar oedolyn yn gwirfoddoli.



- Mae hyn yn amlwg yn gwella **llesiant**.



- Yn y flwyddyn ddiwethaf mae llai o droseddau wedi cael eu cofnodi gan yr heddlu.




- Ond mae mwy o droseddau yn ymwneud â thwyll a chamddefnyddio cyfrifiaduron wedi bod.

6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu



Mae'r nod hwn yn ymwneud ag annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau. A defnyddio'r iaith Gymraeg.

Y pethau y daethon ni i wybod:



- Cymerodd lai o bobl ran yn y celfyddydau neu weithgareddau diwylliannol.



- Roedd tua 10 o bob 100 o bobl yn siarad Cymraeg bob dydd.



- Nid yw'r nifer o oedolion a phlant sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon wedi newid.



- Y math mwyaf poblogaidd o gelfyddyd y gwnaeth pobl ymwneud ag ef oedd ffilm.

7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang



Mae'r nod hwn yn ymwneud â'r ffordd y mae pethau rydyn ni'n eu wneud yng Nghymru wedi effeithio ar y byd.

Fe ddaethon ni i wybod:



- Bod llawer o bobl wedi cael eu crybwyll fel dioddefwyr **caethwasiaeth fodern**.

Mae **caethwasiaeth fodern** yn digwydd pan fydd pobl yn cael eu gorfodi i weithio yn erbyn eu hewyllus. Yn aml heb dâl. Gallan nhw hefyd gael eu gorfodi i fyw heb ryddid.



- Ond gallai'r cynnydd hwn fod oherwydd bod rhywun yn sôn am y peth.



- Rydyn ni'n gwneud gwelliannau mewn lleihau nwyon tŷ gwydr. Mae'r rhain yn fathau o nwyon sy'n niweidiol i'r amgylchedd.



- Er hynny, fel gwlad, rydyn ni hefyd yn achosi pwysau enfawr ar ein planed.



- Mae tua wyth o bob deg o oedolion yn poeni am newid hinsawdd.



- Y rheswm mwyaf am nwyon tŷ gwydr yw ein hynni. Fel gwresogi ein cartrefi.



- Mae naw o bob deg o blant wedi cael pob brechlyn sydd ar eu cyfer.

Mwy o wybodaeth am yr adroddiad hwn



Mae'r adroddiad hwn ynghylch **llesiant** Cymru yn cael ei wneud bob blwyddyn.



Mae'n cael ei wneud oherwydd deddf sy'n cael ei galw'n **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.



Mae'r adroddiad yn cael ei wneud trwy edrych ar nifer o wahanol adroddiadau, arolygon ac ymchwiliad sy'n dweud mwy wrthyn ni am **llesiant** Cymru.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r adroddiad wedi cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru.



Gallwch chi ddod o hyd i fersiwn llawn o'r adroddiad hwn ar-lein yn:

llyw.cymru/llesiant-cymru-2021-html

Geiriau anodd

Ailgylchu

Mae hyn yn digwydd pan fyddwn ni'n troi ein sbwriel yn rhywbeth y gallwn ni ei ddefnyddio eto.

Caethwasiaeth fodern

Mae hyn yn digwydd pan fydd pobl yn cael eu gorfodi i weithio yn erbyn eu hewyllus. Yn aml heb dâl. Gallan nhw hefyd gael eu gorfodi i fyw heb ryddid.

Cyfoeth naturiol

Mae hyn yn bethau fel coedwigoedd, tir, pridd, aer, planhigion a bywyd gwyllt.

Cynhwysiant digidol

Mae hyn yn meddwl gwneud yn siŵr bod pobl yn medru cael mynediad i'r rhyngrwyd a chyfrifiaduron a'u defnyddio yn hawdd.

Economi

Mae hyn yn meddwl hynny o arian sydd gan wlad. Mae hyn yn rhannol i'w wneud â'r pethau rydyn ni'n eu gwneud a'u gwerthu. A faint o arian rydyn ni'n ei wario.

Hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol

Mae hyn yn meddwl pwy rydych chi'n ei ffansio neu'n cael eich denu ato. Er enghraifft, mae dynion hoyw'n ffansio dynion eraill. Mae menywod hoyw'n ffansio menywod eraill. Mae pobl ddeurywiol yn ffansio dynion a menywod.

Llesiant (person)

Mae hyn yn meddwl bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus â'i fywyd a'r hyn mae'n ei wneud.

Llesiant

Mae llesiant yn cynnwys cyflwr ein heconomi, cymdeithas, amgylchedd a diwylliant.

Llygredd yr aer

Mae hwn yn llygredd sy'n cael ei achosi gan geir, trafnidiaeth arall, llosgi tanwydd i wresogi ein cartrefi a phethau eraill.